I S - D D E D D F W R I A E T H

# NOSC 2026 RHIF 3

# BWYD, CYMRU

## Cyfarwyddydau'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Ionawr 2026* |
| *Yn dod i rym* | *13 Ionawr 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 23(1), 24(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ac adran 13(8) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988(**2**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar y Cyfarwyddydau hyn â'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 13(8) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd (Cymru) 2026.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i'r Awdurdod.

---

(**1**) 2006 p. 42, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn. Mae adrannau 23 a 24 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo Awdurdodau Iechyd Arbennig. Cyrff yw Awdurdodau Iechyd Arbennig a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 22 o Ddeddf 2006. Sefydlwyd yr Awdurdod drwy orchymyn o dan ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p. 49), a gydgrynhowyd gan Ddeddf 2006. O dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43), mae is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddarpariaethau a ddiddymwyd ac a ailddeddfwyd gan Ddeddf 2006 yn cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan ddarpariaeth gyfatebol. Mae'r Awdurdod, felly, yn Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf 2006.

(**2**) 1988 p. 7. Diwygiwyd adran 13 gan adran 21(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 (p. 27) a pharagraff 8(11) o Atodlen 6 iddi.

(4) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 13 Ionawr 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "Awdurdod" ("*Authority*") yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a sefydlwyd gan Orchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005(**1**);

ystyr "Cyfarwyddydau 2022" ("*the 2022 Directions*") yw Cyfarwyddydau'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd (Cymru) 2022(**2**);

ystyr "y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru" ("*the Nursery Milk Scheme in Wales*") yw'r cynllun a sefydlwyd gan y Prif Reoliadau fel y mae'n gymwys i Gymru;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Bwydydd Lles 1996(**3**).

**Y Swyddogaethau a Gyfarwyddir**

**3.** Yn y Cyfarwyddydau hyn, ystyr "y Swyddogaethau a Gyfarwyddir" yw—

(a) swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn Rhannau 5 a 6 o'r Prif Reoliadau(**4**), a

(b) y swyddogaethau a nodir yn y Cyfarwyddydau hyn.

**Gweithredu a gweinyddu'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru**

**4.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod arfer y Swyddogaethau a Gyfarwyddir at ddiben gweithredu a gweinyddu'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru.

(2) Mae hyn yn cynnwys—

(a) gweithio gyda Gweinidogion Cymru i sicrhau bod cytundebau a threfniadau priodol yn cael

(**1**) O.S. 2005/2414; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/632, O.S. 2007/1201, O.S. 2013/235 ac O.S. 2017/959.

(**2**) WG22-33, a ddiwygiwyd gan WG22-34 ac WG23-37. Dim ond cyfieithiad cwrteisi o'r Cyfarwyddydau hyn sy'n bodoli yn y Gymraeg.

(**3**) O.S. 1996/1434; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/3262, O.S. 2006/2818, O.S. 2015/1580 ac O.S. 2020/267.

(**4**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Bwydydd Lles 1996 (ac eithrio rheoliadau 6, 8, 12, 13(4) a 15) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

eu rhoi ar waith rhwng yr Awdurdod a Gweinidogion Cymru, sy'n rhoi manylion ynghylch gweinyddu a gweithredu'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru, gan gynnwys manylebau, dangosyddion perfformiad allweddol a threfniadau cyllido;

(b) cyflawni swyddogaethau gweinyddol sy'n ymwneud â chyflenwi llaeth neu laeth sych o dan y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru;

(c) gwirio hawlogaeth a chymeradwyo cyflenwyr yn unol â rheoliad 19 o'r Prif Reoliadau;

(d) gwirio hawliadau a darparu ad-daliadau yn unol â rheoliad 20 o'r Prif Reoliadau;

(e) gofyn am yr wybodaeth a amlinellir yn rheoliad 21 o'r Prif Reoliadau a chael yr wybodaeth honno;

(f) ymdrin ag unrhyw gwynion yn unol â gweithdrefn gwyno gyhoeddedig yr Awdurdod;

(g) cymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n rhesymol angenrheidiol at ddiben atal neu ganfod unrhyw hawliadau twyllodrus gan gyflenwyr neu unrhyw bersonau eraill am ad-daliad, yn unol â'r Cyfarwyddiadau Gwrth-dwyll;

(h) pan fo'r Awdurdod yn amau bod hawliadau twyllodrus wedi eu gwneud, ymchwilio i'r hawliadau hynny yn unol â'r Cyfarwyddiadau Gwrth-dwyll a, phan fo'n briodol, gysylltu â thîm gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru ac ystyried cyflwyno ffeil achos i Wasanaeth Erlyn y Goron pan fo troseddau wedi eu nodi.

(3) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyfarwyddydau hyn ddod i rym, rhaid i'r Awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y personau (os oes rhai) y mae gweithredu a gweinyddu'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru gan yr Awdurdod yn effeithio arnynt yn cael eu hysbysu bod yr Awdurdod yn arfer y Swyddogaethau a Gyfarwyddir.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "Cyfarwyddiadau Gwrth-dwyll" yw Cyfarwyddiadau i Gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll 2005(**1**);

(b) mae i "cyflenwr" yr ystyr a roddir i "supplier" yn rheoliad 2(1) o'r Prif Reoliadau.

(**1**) WHC (2005) 095.

**Cadw cofnodion**

**5.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod gynnal cofnodion ynghylch y modd y mae'n arfer y Swyddogaethau a Gyfarwyddir.

(2) Rhaid i'r cofnodion gynnwys—

(a) cofnodion o'r holl benderfyniadau rheoli a'r holl benderfyniadau gweithredol;

(b) dogfennau sy'n ymwneud ag unrhyw ymgyfreitha (pa un a yw'n ymgyfreitha gwirioneddol neu'n fygythiad o ymgyfreitha);

(c) cofnodion o gwynion a wneir am y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru neu'r modd y gweinyddir y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru gan yr Awdurdod;

(d) ceisiadau a hawliadau am ad-daliad a wneir o dan y Prif Reoliadau.

**Adrodd**

**6.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod ddarparu yn gyfnodol i Weinidogion Cymru adroddiadau ysgrifenedig ar weithrediad y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru ac ar yr hawliadau a delir o dan y Cynllun hwnnw.

(2) Rhaid i'r Awdurdod a Gweinidogion Cymru gytuno ar y dyddiadau pryd y mae rhaid i adroddiadau o dan baragraff (1) gael eu darparu.

(3) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, rhaid i'r Awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw her (gan gynnwys ymgyfreitha gwirioneddol neu fygythiad o ymgyfreitha) i'r Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru.

(4) Pan fo'r Awdurdod yn hysbysu Gweinidogion Cymru am fater yn unol â pharagraff (3), rhaid iddo—

(a) ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch y modd yr ymdrinnir â'r mater, a

(b) sicrhau y rhoddir gwybod yn rheolaidd i Weinidogion Cymru am hynt y mater.

**Defnyddio contractwyr trydydd parti**

**7.**—(1) Caiff yr Awdurdod ymrwymo i gytundeb â chontractwr trydydd parti i gyflawni'r Swyddogaethau a Gyfarwyddir ar gyfer ac ar ran yr Awdurdod.

(2) Cyn ymrwymo i gytundeb â chontractwr trydydd parti o dan baragraff (1), rhaid i'r Awdurdod—

(a) ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch telerau'r cytundeb, a

(b) cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod y contractwr trydydd parti—

(a) yn ymdrin ag unrhyw gwynion yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y cytundeb;

(b) yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth dilysu hawliadau a strategaeth gwrth-dwyll, sy'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion a amlinellir yn y cytundeb;

(c) yn darparu'r gwasanaethau o dan enw'r "Uned Ad-dalu am Laeth Meithrinfeydd";

(d) yn cyflawni'r rhwymedigaethau cadw cofnodion yng nghyfarwyddyd 5;

(e) yn cydymffurfio fel arall â thelerau'r cytundeb.

(4) Pan fo person yn herio'r modd y mae'r contractwr trydydd parti yn ymdrin â chŵyn o dan baragraff (3)(a), rhaid i'r Awdurdod ymdrin ag unrhyw gwynion dilynol ac ymateb iddynt.

**Canllawiau a chyngor**

**8.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau ar y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Ar gais Gweinidogion Cymru, rhaid i'r Awdurdod ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru am y Cynllun Llaeth Meithrinfeydd yng Nghymru.

**Y Cyfarwyddydau hyn yn dod i ben**

**9.**—(1) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y'u gwneir.

(2) Nid yw'r ffaith bod y Cyfarwyddydau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn cyn iddynt ddod i ben.

**Dirymu**

**10.**—(1) Mae Cyfarwyddydau 2022 wedi eu dirymu.

(2) At ddiben y Cyfarwyddydau hyn, mae Cyfarwyddydau 2022 i'w hystyried fel pe baent wedi dod i ben yn union cyn dyddiad cychwyn y Cyfarwyddydau hyn ac mae unrhyw weithred neu anweithred o dan Gyfarwyddydau 2022 a oedd yn gymwys yn union cyn dyddiad cychwyn y Cyfarwyddydau hyn i'w thrin fel gweithred neu anweithred o dan y Cyfarwyddydau hyn.

Ed Wilson
Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd,
Gwelliannau ac Anghydraddoldebau
**Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru**

12 Ionawr 2026

Σ. Δ. [illegible].